Cynhaliwyd cyfarfod o'r Cyngor Cymuned ar Hydref 18 2018 yn Neuadd Santes Ursula am 8 o'r gloch

Presennol : Huw Griffith, Fred Jones, Islwyn Jones, Dylan Davies a'r clerc

Ymddiheuriad : Lyn Davies, Dai Jones

Darllenwyd cofnodion cyfarfod Medi 20 2018 ar arwyddwyd eu bod yn gywir.
Materion yn codi
Goleuadau stryd. Derbyniwyd bill arall oddi wrth Scottish Power am £42.71 i fyny at 30ain Medi. E-bost oddi wrth Simon Bray o'r Cyngor Sir yn dweud ei fod yn cysylltu â Sottish Power . Cytunwyd i dalu'r bil hwn eto.
Biniau halen. Dim ymateb i'r cais hwn o hyd. Awgrymwyd cysylltu â'n Cynghorydd lleol i weld a fedrai ysgogi ymateb.
Hysbysfwrdd Trefenter. Dim pellach i'w adrodd.
Cyflwr peryglus y Llwybr Bach. Daeth e-bost wrth Gareth Owen Parcmon Llwybrau Cyhoeddus yn dweud ei fod wedi adolygu'r sefyllfa ac y byddai'n trafod gyda'i gyd-weithwyr yn adran priffyrdd ac hefyd yn torri'r gor-dyfiant yn ôl cyn hir.
Y cerbyd tu allan i Tŷ Rowan. Darllenwyd llythr ymateb y perchennog yn dweud y bwriadai symud y cerbyd cyn hir.

Gohebiaeth

Gwybodaeth am y Pwyllgor Rheoli Datblygu
Ymateb amodol oddi wrth Grant Thornton yn dweud bod rhai o'r dyddiadau a nodwyd ar y ffurflenni yn anghywir ac yn dweud bod gormod o arian wrth gefn yng nghyfrif rhif 2 sydd heb ei glustnodi ar gyfer pwrpas arbennig. Bydd eu tâl eleni yn £182.75

Holiadur wrth y Gwasanaeth Tân ac Achub

Ariannol
Anfonwyd anfoneb at gronfa Llety'r Bugail.
Ad-dalu VAT – nodyn atgoffa am wasanaeth ar-lein ar gyfer sefydliadau sydd heb gofrestru ar gyfer TAW.
Gofynnwyd i'r clerc archebu torch pabi coch ar gyfer Sul y Cofio
Awdurdodwyd talu cyflog y clerc.
Sefyllfa ariannol. Heb gael cyfriflen ar ôl diwedd Awst.
Cyfrif cyfredol £1547 07 os nad yw gweddill y praesept wedi ei dalu i mewn. (£1004)
I'w talu eto – trydan, torch pabi coch, cyflog, archwilwyr allanol – cyfanswm o £442.46. Ar ôl hyn bydd £1104.61 ar ôl.
Cyfrif 2 – Ar ôl talu £100 i'r clerc bydd £26451.48 ar ôl.
Unrhyw fater arall . Dyddiad y cyfarfod nesaf Tachwedd 15 2018